



TGAU

3010N10-1

DYDD GWENER, 26 MAI 2023 – PRYNHAWN

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 1: Barddoniaeth

HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

(Trowch y dudalen)

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

(Trowch y dudalen)

4

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**

Yn y cerddi mae'r beirdd yn sôn am berthynas ramantus sydd wedi newid dros amser. Cymharwch y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a / neu'n WAHANOL.

Dylech wneud hyn drwy:

- **ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:**
 - **Dywedwch beth yw'r stori sydd yn y cerddi.**
 - **Beth sy'n debyg / wahanol yn y ddwy stori?**
 - **Beth ydy neges y ddau fardd i ni?**

(Trowch y dudalen)

5

- **edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am O LEIAF BEDAIR NODWEDD arddull / mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol**
- **nodi pa UN o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn**

Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau. [40]

(Trowch y dudalen)

Y FERCH WRTH Y BAR YNG NGHLWB IFOR

**Yn fan hyn, aeafau'n ôl,
yn ddifaddau o feddwol,
fe'i gwelais; estynnais stôl.**

**Ordrais beint ar draws y bar
a'i gwylio, yn llawn galar,
yn ei sgert trwy'r mwg sigâr.**

**Yn ei llygaid tanbaid hi
roedd 'na gefnfor o stori,
a hyder a direidi**

**yn eu llawnder i'n herio,
trwy ryw wyrth, y dôi ein tro
ond a dal i'w lled-wylio...**

(Trowch y dudalen)

7

**Ym mrad yr edrychiadau,
yn sŵn ein dawns ni ein dau,
am ei swyn mi es innau**

**yn rhy ddedwydd freuddwydiol,
yn ddifaddau o feddwol,
yn fan hyn, aeafau'n ôl.**

Rhys Iorwerth

(Trowch y dudalen)

MÔR O GARIAD

**Eistedd yma'n unig 'ben fy hun,
 Heno 'sdim amynedd i *helbul byd,
 ond mae'r nos yn *ffoi, fel mae'r byd yn
 troi
 fel y môr o gariad a roddais i ti.**

**'Sdim byd yma heno ond *adlais cariad
 mawr,
 a'n gwydrau *gweigion ar y llawr
 ac i *gwpla'r llun
 yn y botel, *gwaddod gwin –
 gwaddod y môr o gariad a roddais i ti.**

**Hwn oedd cariad glân,
 hwn oedd cariad *ffôl,
 roeddwn i ar dân –
 nawr 'sdim ar ôl.**

(Trowch y dudalen)

**Strydoedd oer y ddinas,
strydoedd mor llawn;
atgofion fydd amdani,
ei *serch a'i dawn.**

****Serch hynny mae'n rhaid byw,
ymuno efo hwyl y criw.
Sych yw'r môr o gariad
a roddais i ti.**

Meic Stevens

GEIRFA

***helbul – helynt/trafferthion**

***ffoi – dianc**

***adlais – cofio am**

***gweigion – gwag**

***gwpla/cwpla – gorffen**

***gwaddod – gweddill, beth sydd ar ôl**

***ffôl – gwirion**

***serch – cariad**

****serch – er**

DIWEDD Y PAPUR